

# **Bwrdd Diogelu Cwm Taf: Cyfnod Pontio: Egwyddorion a Dull**

**"Paratoi pobl ifainc i lwyddo yn  
oedolion"**

Bwrdd Diogelu Cwm Taf	Dyddiad: Rhagfyr 2018	Statws: Wedi'i gymeradwyo
Awdur: A Beckham	Fersiwn Blaenorol: Dd/B	Dyddiad Adolygu: Rhagfyr 2021

## 1. Cyflwyniad

Mae'r canllaw yma yn darparu fframwaith i lywio, strwythuro ac annog gwelliant parhaus y cymorth y mae pobl ifainc ag anghenion ychwanegol rhwng 14 a 25 oed yn ei dderbyn wrth iddyn nhw ddod yn oedolion. Mae'n nodi'r dull a'r egwyddorion y mae disgwyl i'r holl asiantaethau a gwasanaethau yn ardal Bwrdd Diogelu Cwm Taf eu dilyn a'u defnyddio. Er bod rhaid i bob asiantaeth neu faes gwasanaeth gael ei brotocol manwl ei hun ar gyfer y broses bontio, mae'r fframweithiau deddfwriaethol sy'n gysylltiedig â'r amrywiaeth o wasanaethau yn golygu bod dim modd cael un protocol i bawb. Felly, mae'r Bwrdd Diogelu yn disgwyl y bydd pob asiantaeth sy'n darparu gwasanaethau i bobl ifainc sydd ar fin dod yn oedolion yn mabwysiadu'r dull sy'n cael ei nodi yn y ddogfen yma.

Mae gobeithion pobl ifainc sydd ag anghenion cymorth ychwanegol yr un peth â gobeithion pobl ifainc eraill: maen nhw eisiau cael llais a bywyd cymdeithasol, a bod yn ddinasyddion gweithgar sy'n cael eu gwerthfawrogi. Yn anffodus, dydy llawer o bobl ifainc sydd ag anghenion cymorth ychwanegol ddim yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnyn nhw i gyflawni hyn. O ganlyniad, maen nhw a'u teuluoedd yn profi teimladau o anobaith, yn ogystal â theimlo eu bod yn cael eu gadael ar ôl. Mae'n bwysig bod gwaith yn parhau i fynd i'r afael â hyn.

O ran y broses bontio, un o'r camau cyntaf tuag at sicrhau dull y mae pawb yn ei ddefnyddio yw diffinio'r hyn y mae 'pontio' yn ei olygu, a'i fod yn berthnasol i bob maes. Mae Bwrdd Diogelu Cwm Taf yn cynnig y diffiniad yma (yn yr iaith wreiddiol):

***'Transition is the period when young people develop from children to young adults. This is not a single event, such as leaving school, but a growing-up process that unfolds over several years and involves significant emotional, physical, intellectual and physiological changes. During this period, young people progressively assume greater autonomy in many different areas of their lives and are required to adjust to different experiences, expectations, processes, places and routines. Transitions also impact on the family or on those who care for the young person/young adult.'***

Bellach, mae glaslencyndod a'r broses o ddod yn oedolyn ifanc yn cael ei gydnabod yn gyfnod datblygiadol penodol, yn yr un modd â mae anghenion gofal plant dan bump oed neu bobl hŷn yn cael eu cydnabod a'u haddasu fel y bo'n briodol. Er hynny, yn aml does dim cydnabyddiaeth bod gofynion penodol

wrth ddarparu gwasanaethau i bobl ifainc. Mae yna ddiffyg darpariaeth gyffredinol ar gyfer anghenion penodol cyfnod datblygu oedolion ifainc, yn ogystal â diffyg gwybodaeth amdano.

Does dim llawer o wasanaethau sy'n darparu dilyniant yn y cyfnod pontio o fod yn berson ifanc i oedolyn ifanc, felly, fel arfer, rhaid i berson ifanc symud o wasanaeth sy'n cael ei ddarparu ar gyfer pobl dan 18 oed i un sy'n cael ei ddarparu ar gyfer oedolion. Mae proses bontio lwyddiannus yn cydnabod y berthynas symbiotig rhwng y system, y gwasanaethau, y llwybrau ar draws y gwasanaethu Addysg, Iechyd, Gofal Cymdeithasol, Troseddwyr a gwasanaethau eraill a'r effaith maen nhw'n eu cael ar y deilliannau i bobl ifainc a'u teuluoedd.

Mae cynlluniau pontio llwyddiannus yn rhai lle mae pawb sy'n gweithio gyda'r person ifanc yn defnyddio'r un dull, mewn gwir bartneriaeth, i roi'r cyfle gorau i'r person ifanc wireddu ei freuddwydion a chyflawni'r hyn y mae'n ei ddymuno yn ystod ei oes.

**Mae proses bontio lwyddiannus yn dechrau gyda'r person ifanc wrth wraidd y broses gynllunio ac yn canolbwyntio ar ei ddyheadau yn oedolyn, gan nodi'r gefnogaeth a'r anghenion dysgu parhaus angenrheidiol er mwyn cyflawni'r hyn y mae'n ei ddymuno. Pan fydd y teulu'n cael ei gynnwys yn y cynlluniau yma, maen nhw'n allweddol o ran cefnogi'r cyflawniad a nodi unrhyw anghenion penodol lle mae angen cymorth wedi'i dargedu.**

Caiff proses bontio lwyddiannus ei chydlynu, gyda gweithiwr arweiniol dynodedig yn cydlynu gwahanol rannau'r broses ar gyfer y person ifanc, fel bod gyda'r person ifanc a'i deulu un cynllun sy'n canolbwyntio ar y person ac sy'n cynnwys ei holl bwyntiau cyswllt allweddol, eu rolau ac unrhyw gamau i'w cymryd. Pan fydd y person ifanc yn 16 neu'n 17 oed, mae'n bosibl y bydd hyn yn cynnwys cynrychiolwyr o'r gwasanaethau plant ac oedolion, yn dibynnu ar amgylchiadau unigol y person.

Y canllawiau mwyaf diweddar a pherthnasol ar y cyfnod pontio i weithwyr proffesiynol ac asiantaethau eu defnyddio yw rhai'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE). Mae canllawiau NICE (2016) yn nodi mai'r egwyddor gyffredinol yw cynnwys pobl ifainc a'u teuluoedd wrth gynllunio, cyflwyno a gwerthuso'r gwasanaeth ar lefel sefydliadol a'r system, a hynny drwy:

- llunio polisiau a strategaethau pontio ar y cyd â nhw
- cynllunio a phrofi deunyddiau ac adnoddau ar y cyd

- gofyn iddyn nhw os yw'r gwasanaethau wedi'u helpu nhw i sicrhau'r deilliannau a gafodd eu cytuno
- rhoi adborth iddyn nhw ynglŷn â'r effaith maen nhw wedi'i gael ar y broses

O Bersbectif Cynllunio Personol, mae'r canllawiau'n canolbwyntio ar ddull sy'n seiliedig ar gryfderau gyda'r canolbwynt ar yr unigolyn, yn hytrach na'i fod yn seiliedig ar gynnig gwasanaeth neu ragdybiaethau a gafodd eu pennu ymlaen llaw yn seiliedig ar gyflwr neu amgylchiadau'r person. Dylai'r dull gael ei gyflenwi drwy:

- cynnwys y person ifanc yn bartner cyfartal yn y broses ac ystyried ei safbwyntiau a'i anghenion yn llawn
- cynnwys yr unigolyn ifanc, ei rieni/cynhalwyr (gofalwyr), ymarferwyr gofal sylfaenol a'u cydweithwyr ym myd addysg yn bartneriaid cyfartal
- cefnogi'r person ifanc fel bod modd iddo wneud penderfyniadau a meithrin ei hyder i reoli ei ofal a'i gymorth ei hun
- cynnwys y person ifanc yn llawn yn y broses gynllunio, gweithredu ac adolygu
- canolbwyntio ar gyfleoedd a deilliannau, gan gynnwys:
  - addysg a chyflogaeth
  - cyfraniad y gymuned
  - iechyd a lles, gan gynnwys iechyd emosiynol
  - byw'n annibynnol a dewisiadau o ran tai
  - cynllunio ac adolygu dilyniant

Wrth ddatblygu'r Broses, rhaid i wasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol, plant ac oedolion gydweithio mewn modd integredig i sicrhau proses bontio ddiraferth a graddol ar gyfer pobl ifainc.

**Tabl 1: Meini Prawf Meincnodi**

Y lefel	Meini Prawf Meincnodi: Diffiniad 'Llwyddiannus' yw
Proses Bontio Lwyddiannus ar gyfer y SYSTEM yw:	<ul style="list-style-type: none"> <li>■ Dull wedi'i rannu o ran cyflawni deilliannau</li> <li>■ Y system yn cydweithio ac yn atebol i'w hun yn ei chyfanrwydd</li> <li>■ Lleihau nifer y silos</li> </ul>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>■ Deilliannau gwell a defnydd gwell o adnoddau</li> <li>■ Arbedion maint</li> <li>■ Creu sylfaen ar gyfer dulliau integredig</li> <li>■ Alinio llwybrau a'u canolbwyntio ar gyflawni deilliannau ac egwyddorion y system</li> </ul>
Proses Bontio Lwyddiannus ar gyfer SEFYDLIADAU yw:	<ul style="list-style-type: none"> <li>■ Cynyddu cynhyrchiant</li> <li>■ Cydweithio'n well, rhannu swyddogaethau'n well a lleihau dyblygu gwaith</li> <li>■ Bod yn fwy effeithlon ac effeithiol</li> <li>■ Bod modd dangos deilliannau gwell</li> </ul>
Proses Bontio Lwyddiannus ar gyfer y GWEITHLU yw:	<ul style="list-style-type: none"> <li>■ Teimlo'n fwy bodlon wrth wybod ei fod yn gweithio gyda phartneriaid sydd i gyd yn gweithio tuag at yr un amcanion</li> <li>■ Ei fod yn ymddiried mwy yn y system</li> <li>■ Gweithio yn ôl ei werthoedd wrth helpu i sicrhau gwell ddeilliannau i'r person ifanc a'i deulu</li> <li>■ Llai o gwynion ac achosion o salwch</li> <li>■ Teimlo'n fwy bodlon yn ei swyddi ac o ran ei les</li> </ul>
Proses Bontio Dda ar gyfer y PERSON IFANC a'i DEULU yw:	<p>Wedi'i ganolbwyntio ar y person: Geiriau a dyheadau'r person ifanc mewn bywyd / wrth fod yn oedolyn. O hyn, mae modd darparu cymorth drwy:</p> <p>Un cynllun partneriaeth: sy'n cynnwys risgiau a chynlluniau wrth gefn ac asesiadau a champau gweithredu pawb sy'n rhan o'r cynllun</p> <p>Yn glir ac wedi'i gydlynu fel bod modd i'r person ifanc gysylltu ag un person dynodedig wrth barhau i gynnwys yr holl bobl dan sylw, eu rolau a'u nodau, gyda manylion cyswllt ar draws gwasanaethau addysg, gofal cymdeithasol, iechyd, materion tai lle bo'n briodol, plant, oedolion a gwasanaethau prif ffrwd fel meddyg teulu a gwasanaethau wedi'u targedu fel eirioli, yn ogystal â gwasanaethau cyffredinol/cymunedol fel cyfleusterau hamdden a chyflogaeth. Hefyd yn cynnwys y teulu a'r ffrindiau dan sylw a'r hyn maen nhw'n ei ddarparu'n anffurfiol, e.e. cael hwyl, teithiau i'r sinema, tylino traed, cariad.</p>

	Mae hyn i gyd er mwyn ceisio cyflawni'r deilliannau. Mae'r cynllun yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau gan y person dynodedig gyda'r person a'r teulu dan sylw drwyddo draw oni bai bod tystiolaeth yn dweud fel arall a bod hyn wedi'i chofnodi.
--	--

Yr effaith ar y person ifanc a'i deulu yw eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu. Maen nhw'n bartneriaid cyfartal yn y broses gynllunio sy'n canolbwyntio ar y person ifanc, ei anghenion a'i ddyheadau. Mae llai o risg o bobl yn drysu neu'n teimlo'n rhwystredig ac mae'r system yn hyrwyddo amgylchedd gwell er mwyn cyflawni a chael boddhad. Felly, bydd rhagor o bobl ifainc yn derbyn y cymorth sydd ei angen arnyn nhw a byddan nhw'n llai tebygol o gael eu 'colli' rhwng gwasanaethau a llwybrau.

Mae Bwrdd Diogelu Cwm Taf yn cefnogi'r saith egwyddor ganlynol mewn perthynas â'r broses bontio. Dylai asiantaethau eu cynnwys yn eu protocolau er mwyn sicrhau bod pobl ifainc yn cael eu cefnogi wrth ddod yn oedolion.

### **Proses Bontio Lwyddiannus: Y Saith Egwyddor**

1. Dylid canolbwyntio ar yr unigolyn wrth gynllunio a gwneud penderfyniadau
2. Dylai cymorth gael ei gydlynu ar draws yr holl wasanaethau
3. Dylid dechrau cynllunio'n gynnar a pharhau'r gwaith yma hyd at 25 oed
4. Dylai pob person ifanc gael y cymorth angenrheidiol
5. Rhaid bod modd i bobl ifainc, rhieni a chynhalwyr gael gafael ar yr wybodaeth sydd ei hangen arnyn nhw
6. Mae angen cymorth ar deuluoedd a chynhalwyr
7. Dylid canolbwyntio'n barhaus ar y broses bontio

## **Egwyddor Un:**

### **Dylid canolbwyntio ar yr unigolyn wrth gynllunio a gwneud penderfyniadau**

Mae hyn yn golygu:

- Dylai'r person ifanc fod wrth wraidd ei gynlluniau pontio ei hun
  - Mae'n hanfodol bod llais y person ifanc yn cael ei glywed a'i gofnodi ar bob cam o'r broses bontio
- Cyd-ddealltwriaeth ac ymrwymiad i ddulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar draws yr holl wasanaethau.
  - Dylai'r holl wasanaethau sicrhau bod staff yn effro i ddulliau Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn (PCP)
- Dylai'r person ifanc gael un cynllun y mae modd ei drosglwyddo, e.e. o'r naill wasanaeth i'r llall
  - Dylai fod modd i'r person ifanc gael gafael ar ei gynllun pontio ei hun mewn fformat dealladwy

### **Dylai'r person ifanc fod wrth wraidd ei gynlluniau pontio ei hun**

Dylai dyheadau plant a phobl ifainc fod wrth wraidd unrhyw benderfyniadau sy'n cael eu gwneud am gymorth mewn perthynas â'u hiechyd neu eu gofal cymdeithasol. Bydd hyn yn sicrhau bod eu hanghenion lles yn cael eu diwallu. Mae pobl ifainc a'r rheiny sy'n gofalu amdanyn nhw yn gwybod yn well nac eraill yr hyn sydd ei angen arnyn nhw, cyn belled â bod modd iddyn nhw gael gafael ar yr wybodaeth a'r cymorth cywir ar adeg sy'n iawn iddyn nhw. Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn gosod dyletswydd i gynnwys plant, eu rhieni/cynhalwyr a phobl ifainc, ystyried eu 'barn, dymuniadau a theimladau' a chefnogi cydweithredu ystyrllon. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2015 yn canolbwyntio ar y "Dyletswydd Lles" ac yn nodi (yn yr iaith wreiddiol):

*"A person exercising functions under this Act must seek to promote the well-being of people who need care and support and carers who need support"*

Mae ethos y Ddeddf yma yn canolbwyntio ar ddull atal yn hytrach nag ymyrryd mewn argyfwng, ac mae'r ddwy Ddeddf yn hyrwyddo cydweithio, yn seiliedig ar gryfderau gan ganolbwyntio ar ddeilliannau.

Bydd gweithio mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a darparu gwybodaeth ar yr adeg iawn yn helpu pobl ifainc drwy'r broses bontio.

Mae modd i ddulliau sy'n seiliedig ar hawliau arwain at ddewisiadau gwybodus a deilliannau cadarnhaol i bobl ifainc. Dylen nhw ganolbwyntio ar y canlynol:

- Sicrhau hawl pobl ifainc i ddweud beth ddylai ddigwydd yn eu barn nhw
- Bod pobl ifainc yn rheoli eu bywydau eu hunain ac yn gwneud eu penderfyniadau eu hunain
- Bod eu barn yn cael ei hystyried.

Ar gyfer pobl ifainc sy'n gadael gofal, caiff cyfrifoldebau allweddol eu nodi'n fanwl yn Rhan 6 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Mae hyn er mwyn sicrhau bod pobl ifainc yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnyn nhw i bontio'n llwyddiannus i fod yn oedolyn a symud tuag at ffordd o fyw mwy annibynnol. Dylai'r rheiny sy'n gadael gofal ddisgwyl yr un lefel o ofal a chefnogaeth y byddai eraill yn ei ddisgwyl gan rieni neu gynhalwyr.

Yn rhan o adolygiad arfer plant diweddar gan Fwrdd Diogelu Plant Canolbarth a Gorllewin Cymru, cafodd ymgynghoriad ei gynnal â phobl ifanc i ddeall eu profiadau wrth adael gofal. Roedd yr adroddiad wedi canfod bod pobl ifainc (yn yr iaith wreiddiol):

*"Spoke of their absolute fear of leaving care and being cut adrift and the need for carers to remember to parent them, as they would their own children, to care and care enough to challenge them"*

Dylai awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am ofal a chymorth plant ynghyd ag asiantaethau partner sicrhau bod pobl ifainc yn cael y cyfleoedd y mae eu hangen arnyn nhw er mwyn iddyn nhw ddod i delerau â'r cyfrifoldebau o fod yn oedolyn. A ninnau'n rhieni corfforaethol, rhaid i ni ystyried yr egwyddorion canlynol o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (yn yr iaith wreiddiol):

*"Is this good enough for my child ?"*



*Does this provide a second chance if things don't go as expected ?  
Is this tailored to the child's individual needs, particularly if they are more vulnerable than other children? "*

(Deddf Gwasanaethau  
Cymdeithasol a  
Llesiant 2014, Rhan 6)

Pan fydd plentyn yn cyrraedd 16 oed, rhaid i'r awdurdod lleol baratoi cynllun llwybr i'w gefnogi yn ystod y broses bontio i fod yn oedolyn. Dylai'r cynllun gynnwys yr egwyddorion pontio sydd wedi'u hamlinellu yn y ddogfen yma.

### **Cyd-ddealltwriaeth ac ymrwymiad i ddulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar draws yr holl wasanaethau**

Mae yna dystiolaeth bod dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn darparu ffordd o wella deilliannau i bobl ifainc yn y cyfnod pontio ac mae'r dulliau yma wedi cael eu defnyddio'n llwyddiannus ers blynyddoedd lawer. Mae gwaith cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn archwilio dyheadau person ifanc. Dydy'r dyheadau yma ddim yn cael eu cyfyngu gan hawl neu gymhwyster. Er mwyn cyflawni'r deilliannau gorau i bobl ifainc, mae'n arfer da trin y broses asesu ar wahân o'r hyn sydd yn y gyllideb. Fodd bynnag, mae angen i'r gwaith cynllunio yn y broses asesu ystyried bod adnoddau yn gyfyngedig yn y byd go iawn. Mae angen i asesiadau yn ystod y cyfnod pontio ystyried pob dim, gan archwilio deilliannau personol y person ifanc, waeth beth fydd y cymorth - boed y gwasanaethau'n statudol neu'n gyffredinol. Dylai'r asesiadau gael eu cynnal ar y cyd â'r holl asiantaethau dan sylw a dylen nhw osgoi asesiadau parhaus a diangen.

Dylai asesiadau effeithiol fod yn brofiadau gwerthfawr, gan greu dealltwriaeth well o sefyllfa unigolyn, nodi'r dull mwyaf priodol o fynd i'r afael â'i amgylchiadau penodol a sut y bydd modd i'r unigolyn gyflawni ei ddeilliannau personol. Dylai'r gwaith yma gael ei gynnal ar y cyd rhwng y gwasanaethau plant ac oedolion. Wrth wneud hyn fydd dim angen dilyn y broses adrodd asesiadau.

**Yn rhan o'r dull PCP, dylai un person gefnogi a hwyluso cydlynu'r broses gynllunio a'r adolygiadau dilynol.** Mae cynnig y dewis i bobl ifainc o gael cynllun sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn cefnogi gofynion sawl darn o ddeddfwriaeth drwy:

- Darparu mecanwaith i gefnogi'r cam casglu gwybodaeth y mae'n rhaid i ysgolion ei gwblhau o leiaf blwyddyn cyn i'r person ifanc adael yr ysgol
- Cefnogi cynllunio deilliannau. Os caiff bylchau eu nodi yn y broses PCP, dylai'r wybodaeth yma gael ei bwydo yn ôl i'r weithdrefn gomisiynu. Dylid gwneud hyn trwy Gynlluniau Strategol a Gwella'r awdurdod lleol fel bod modd creu a llywio'r broses gomisiynu gwasanaethau a gweithio ar y cyd rhwng meysydd iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol. Bydd hyn yn darparu mecanwaith i archwilio cyllidebau dangosol

Fydd pob person ifanc ddim eisiau cynllun sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn ei ystyr lawn a dylai dulliau cynllunio eraill fod ar gael. Fodd bynnag, rhaid parchu hawliau'r person ifanc gan roi'r wybodaeth a'r gefnogaeth berthnasol iddo fel bod modd iddo wneud dewis gwybodus o ran yr hyn sy'n iawn iddo.

### **Dylai'r person ifanc gael un cynllun y mae modd ei drosglwyddo (e.e. o'r naill wasanaeth i'r llall)**

Pan fydd proses gynllunio ar y cyd ar waith sydd ddim yn cael ei rhannu, bydd gweithwyr proffesiynol yn aml yn paratoi cynlluniau ar wahân ar gyfer agweddau gwahanol ar fywyd y person ifanc, ond agweddau sydd yn dal i orgyffwrdd. Mae hyn yn golygu bod rhaid i bobl ifainc, rhieni a chynhalwyr adrodd eu straeon sawl gwaith i wahanol weithwyr proffesiynol. Mae hyn yn rhwystredig i'r rheiny sy'n rhan o'r gwaith, gan ei fod yn golygu dyblygu gwaith a dydy e ddim yn cyd-fynd â dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Bydd Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn disodli'r Fframwaith Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) bresennol gyda system ddiwygiedig yn seiliedig ar Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer Cynlluniau Datblygu Unigol statudol, cyffredinol ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc ag ADY. Mae hyn yn golygu y bydd ymyriadau dan arweiniad ysgolion a datganiadau wedi'u cyhoeddi gan awdurdodau lleol yn dod i ben. Bydd hefyd yn integreiddio'r trefniadau deddfwriaethol ar wahân sy'n bodoli ar gyfer disgyblion mewn ysgolion a myfyrwyr dros 16 oed mewn colegau. Mae'r Ddeddf hefyd yn ceisio gwella sut mae awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn cydweithio, yn ogystal â sefydlu system decach a chliriach sy'n pwysleisio ar osgoi anghytuno a datrys anghydfodau. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd i gynnwys plant, eu

rhieni/cynhalwyr a phobl ifainc, ystyried eu 'barn, dymuniadau a theimladau' a chefnogi cydweithredu ystyrlon.

Cafodd Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) ei basio'n unfrydol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 12 Rhagfyr 2017 a daeth yn Ddeddf ar 24 Ionawr 2018 yn dilyn Cydsyniad Brenhinol.

Bydd rheoliadau a Chod ADY newydd yn cefnogi'r Ddeddf. Bydd y ddau yn cael eu hadolygu yn Hydref 2018, gydag ymgynghoriad yn cael ei gynnal hefyd. Yna byddan nhw'n cael eu gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'u cyhoeddi. Mae disgwyl i'r ddau fod ar waith erbyn diwedd 2019 yn dilyn gwaith craffu gan y Cynulliad.

Mae'r Ddeddf yn nodi bod rhaid i awdurdodau lleol ddarparu cynlluniau gofal ar gyfer plant ac oedolion, a'u hadolygu. Efallai y bydd modd diwallu rhai anghenion heb gynllun gofal a chymorth ffurfiol. Fodd bynnag, bydd angen cynllun gofal a chymorth os does dim modd cyflawni deilliannau personol.

Rhaid datblygu'r cynllun gofal a chymorth ar y cyd â'r unigolyn i sicrhau bod dealltwriaeth gytûn o sut bydd yr anghenion yn cael eu diwallu a sut bydd deilliannau personol yn cael eu cyflawni. Mae hyn yn hanfodol wrth gynllunio ar gyfer bod yn oedolyn. Rydyn ni'n argymhell bod modd trosglwyddo'r cynllun pontio yma i'r gwasanaethau i oedolion. Wrth i unigolion dyfu'n oedolion, bydd eu deilliannau'n newid. Bydd y gwasanaethau i oedolion felly yn parhau i'w diweddarau.

Mae modd cyfeirio at hyn fel y "**Cynllun Gofal a Chymorth y Cyfnod Pontio**", a dylai gynnwys y canlynol.

- Pam mae angen cymorth ar blentyn neu berson ifanc
- Y math o gymorth sydd ei angen ar berson ifanc, cyfnod y cymorth a phwy ddylai ei ddarparu
- Pryderon a deilliannau lles gan gynnwys darparu cymorth pan fydd yr unigolyn yn oedolyn
- Pwy sy'n gyfrifol am gyflawni'r cynllun
- Pob cynllun sy'n berthnasol i'r broses gynllunio, gan gynnwys y Cynllun Cymorth Wedi'i Gydlynu neu gynlluniau addysgol eraill
- Barn y person ifanc a'i gynhalwyr

Drwy gynllunio ar gyfer y broses bontio fel hyn, bydd yn sicrhau bod gyda phobl ifainc a'u cynhalwyr gynllun pontio penodol sy'n cael ei ddiweddarau gyda'u deilliannau lles a phersonol yn ystod y broses o droi'n oedolyn.

## **Egwyddor Dau:**

### **Dylai cymorth gael ei gydlynu ar draws yr holl wasanaethau**

Mae hyn yn golygu:

- Dylai pob gwasanaeth fod yn ymgynghori â phobl ifainc i sicrhau eu bod yn teimlo bod gwasanaethau'n cael eu cydlynu mewn ffordd sy'n eu cefnogi
  - Dylai'r broses ymgynghori ddechrau yn gynnar i sicrhau bod gwasanaethau'n addasu ac yn newid yn ôl y galw a'r angen
- O ran y broses bontio, dylai pob gwasanaeth fod yn rhan o ddull wedi'i gydlynu yn ardal yr awdurdod lleol
  - Dylai pob gwasanaeth sicrhau bod dealltwriaeth o bob agwedd ar y broses bontio yn cael ei chynnwys yn ei gynlluniau hyfforddiant/datblygu
- Dylai profiad pob person ifanc o'r broses bontio gael ei werthuso a dylai'r gwerthusiadau hynny lywio unrhyw gamau gweithredu
  - Dylai pobl ifainc gael y cyfle i drafod eu profiad o'r broses bontio er mwyn dysgu a'i roi ar waith yn ymarferol yn y dyfodol

I grynhoi, dylai'r broses bontio ganolbwyntio ar anghenion y person ifanc a dylai fod yn effeithlon ac yn effeithiol.

Yn ystod y broses bontio, efallai y bydd pobl ifainc ag anghenion cymorth ychwanegol yn dod i gysylltiad â nifer o wasanaethau. Bydd rhai pobl ifainc yn dod i gysylltiad ag amrywiaeth fawr o wasanaethau sy'n gysylltiedig â'r broses

bontio; rhai ohonyn nhw'n wasanaethau cyffredinol a rhai ar sail anghenion/risg. Mae modd i'r rhain gynnwys:

- Addysg/Gyrfaoedd
- Iechyd (iechyd corfforol ac iechyd a lles meddwl ac emosiynol)
- Materion Tai
- Cyfiawnder Troseddol

Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid yn nodi'r canlynol (yn yr iaith wreiddiol)

**“The transition process must be acknowledged as a critical period of heightened risk and must not focus on one organisation relinquishing responsibility of a young person. Instead the transition process must be seen as a critical time in a young person’s journey... where extra effort, early planning and accurate assessment is required to cater for individual needs of the young person and to manage any risk”**

*(Fframwaith Drosglwyddo o Wasanaethau Ieuencid i Wasanaethau Oedolion y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid)*

Felly, mae cydlynu cynllunio'r broses bontio mewn ffordd effeithiol yn hanfodol os ydyn ni am sicrhau bod risgiau ac anghenion person ifanc yn cael eu diwallu mewn ffordd sy'n darparu cyfnod pontio di-dor o wasanaethau i blant i wasanaethau i oedolion.

### **Arfer gorau**

Mae'r arfer gorau cyfredol yn awgrymu y dylai awdurdodau lleol ddatblygu dull lle y bydd grŵp strategol trosfwaol yn sicrhau bod asiantaethau'n gweithio ar y cyd mewn ffordd effeithiol. O ran gweithredu'r dull, dylai cydlynnydd pontio gael ei benodi a fydd yn dwyn ynghyd y bobl iawn ar gyfer pob person ifanc yn unigol. Byddai modd i'r cydlynnydd yma ddod o unrhyw un o'r gwasanaethau sy'n gweithio gyda phobl ifainc.

**Yn ymarferol, bydd y dull yma'n sicrhau:**

- Bod y person ifanc yn cael ei drin yn unigolyn ac yn bartner cyfartal wrth ddatblygu ei gynllun pontio
- Bod dilyniant o ran y gofal a'r cymorth y mae'r person ifanc yn ei dderbyn
- Bod modd cefnogi'r person ifanc trwy wasanaeth eiriolaeth/mentora
- Bod modd i deulu'r person ifanc fod yn rhan o'r broses os yw'r person ifanc yn dymuno
- Bod modd rhoi cyfnod pontio'r person ifanc ar waith yng nghyd-destun ei ddatblygiad, ei aeddfedrwydd a'i allu

### **Yn strategol, bydd y dull yma'n sicrhau:**

- Ymrwymiad i ddiogelu pobl ifainc wrth iddyn nhw ddod yn oedolion
- Ymrwymiad gan awdurdodau lleol a'r holl asiantaethau i egwyddorion gwaith cynllunio pontio effeithiol
- Hyrwyddo egwyddorion gwaith cynllunio pontio effeithiol
- Rhoi gwaith cynllunio pontio ar waith ar draws ardal yr awdurdod lleol mewn ffordd effeithlon ac effeithiol
- Rhannu arfer gorau ac arloesol ar draws yr ardal ac yn ehangach
- Gwerthuso prosesau pontio mewn ffordd gadarn a chyson sy'n adlewyrchu lleisiau'r bobl ifainc a'r gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda nhw
- Bod dogfennau polisiâu a phrosesau asiantaethau unigol i gyd yn ystyried egwyddor y dull wedi'i gydlynu a'r hyn sy'n ofynnol ac yn ddisgwyliedig mewn perthynas â hynny

### **Bydd y broses werthuso'n ein galluogi i:**

- Gwella'r broses bontio wrth i bobl ifainc roi eu barn i ni
- Sicrhau bod unrhyw faterion sy'n codi yn cael eu trafod, eu hasesu a'u gweithredu fel sy'n ofynnol
- Dadansoddi gwybodaeth gyda'r nod o wella gwasanaethau
- Defnyddio gwybodaeth i lywio arfer gorau a chyfrannu at waith ymchwil
- Sicrhau ein bod ni'n rhoi'r cyfle gorau i bobl ifainc bontio o ieuencid i fod yn oedolion yn llwyddiannus trwy fesur ein hymrwymiad i egwyddorion dull wedi'i gydlynu

## **Egwyddor Tri:**

### **Dylid dechrau cynllunio'n gynnar a pharhau'r gwaith yma hyd at 25 oed**

Mae hyn yn golygu:

- Dylai'r broses gynllunio fod ar gael o 14 oed a bod yn gymesur â'r angen
  - I ddechrau, dylai'r gwaith gael ei gydlynu gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar addysg
- Dylai gwasanaethau i oedolion fabwysiadu cynlluniau ac asesiadau plant
  - Dylai fod modd trosglwyddo asesiadau rhwng y gwasanaethau i blant ac oedolion, gan osgoi'r angen am ail-asesiadau diangen
- Dylai gwaith cynllunio'r broses bontio a chymorth barhau tan fod unigolion yn 25 oed
  - Dylai pob gweithiwr proffesiynol sy'n ymwneud â'r elfen gofal yn rhan o waith cynllunio'r broses bontio barhau i'w adolygu'n rheolaidd tan fod unigolion yn 25 oed a lle mae anghenion gofal a chymorth wedi eu sefydlu.

### **Dylai'r broses gynllunio fod ar gael o 14 oed a bod yn gymesur â'r angen**

Mae canllawiau NICE ar y broses bontio yn hyrwyddo ymyrraeth gynnar yn ystod y cyfnod pontio (NG.1.2)<sup>3</sup>. Mae'r dull yma hefyd yn cefnogi erthyglau 2,3,12 a 28 Siarter y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Dylai gwaith cynllunio gofal sy'n parhau tan fod unigolion yn oedolion roi sicrwydd i blant a phobl ifainc bod cynlluniau a systemau ar waith i osgoi rhuthro trwy'r cyfnod pontio, neu fod y cyfnod pontio'n mynd i ddigwydd yn sydyn.

Mae'r Ddeddf Gwasanaethu Cymdeithasol a Llesiant yn hyrwyddo ymyrraeth gynnar a throsglwyddo asesiadau er mwyn sicrhau cyfnod pontio didrafferth i fod yn oedolyn.

Mae tystiolaeth yn awgrymu bod cynllunio'r cyfnod pontio mewn rhai ardaloedd awdurdodau lleol yn dechrau'n rhy hwyr. Mae llawer o gynhalwyr a gweithwyr proffesiynol yn adrodd bod hyn yn ffactor sy'n cyfrannu'n sylweddol at gyfnodau pontio anfoddhaol ac aneffeithiol. Dylai fod gydag awdurdodau lleol eu trefniadau pontio eu hunain sy'n sicrhau bod modd dod i benderfyniad a chynnig cymorth i bobl ifainc a'u teuluoedd yn gynnar yn y broses bontio.

### **Arfer gorau**

Mae'n arfer gorau i ddechrau cynllunio'r broses bontio yn gynnar a bydd yn cael ei monitro gan y grŵp strategol trosfwaol sy'n gyfrifol am y broses. Mae modd i hyn gynnwys ymyriadau fel:

- Nodi partneriaid perthnasol er mwyn cynllunio ar y cyd
- Rheoli disgwyliadau gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i oedolion
- Ystyried cyfleoedd cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- Esbonio asesiadau sy'n seiliedig ar ddeilliannau
- Canolbwyntio ar broblemau iechyd penodol a hunanreoli
- Archwilio anghenion a chyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant
- Darparu gwybodaeth am newidiadau i fudd-daliadau
- Trafod y dewisiadau a'r adnoddau sydd ar gael wrth i'r broses bontio fynd yn ei blaen.

Mae angen i bobl ifainc, rhieni, cynhalwyr a gweithwyr proffesiynol fod yn effro i'r mathau o gymorth sydd ar gael yn gynnar yn y broses. Dylai gwasanaethau gwaith cymdeithasol ddarparu cyllideb ddangosol ar gyfer pobl ifainc sy'n cwrdd â'r meini prawf cymhwysedd, a hynny heb fod yn hwyrach na blwyddyn cyn iddyn nhw adael yr ysgol. Bydd hyn yn sicrhau bod modd i wasanaethau i oedolion gynllunio'n effeithiol heb oedi na gadael i bethau lithro.

Mae llawer o bobl ifainc sy'n gadael gofal wedi profi bod cynllunio cynnar yn gwneud iddyn nhw feddwl bod eu cyfnod pontio ar fin digwydd, sy'n achosi



pryder yn anfwriadol. Yn gynnar yn y broses, dylid esbonio'n glir bod cynllunio cynnar ddim yn golygu y bydd unigolion yn gadael gofal yn gynnar. Dylid esbonio'n glir yr hyn y mae'r broses gynllunio gynnar yn ei golygu i bob gweithiwr proffesiynol, rhiant, cynhaliwr a pherson ifanc. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ran ei berthnasedd â Rhan 6 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

Dylid disgwyl y bydd yr hyn y mae pobl ifainc yn dymuno ei gyflawni yn newid yn ystod y cyfnod pontio. Felly, dylai cynlluniau sy'n cael eu dechrau'n gynnar gael eu hadolygu a'u diweddarau'n gyson gan y rheiny sy'n ymwneud â'r broses gynllunio, eu cynhalwyr a'u carfan gymorth. Mae hyn wedi'i nodi'n fanwl yng Nghynllun Llwybr y Plentyn ac yn Rhan 6 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

Dylai sefydlu fforymau neu gydlynwyr pontio lleol (gweler Egwyddor 2) wella gallu awdurdodau lleol i ddechrau cynllunio yn amserol.

### **Dylai gwasanaethau i oedolion fabwysiadu cynlluniau ac asesiadau plant**

Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn sicrhau bod modd trosglwyddo asesiadau ac felly, dylai'r egwyddor yma gael ei mabwysiadu ar gyfer trefniadau pontio. O fewn gwasanaethau i blant, mae asesiadau ar ddeilliannau lles wedi'u teilwra i'r unigolyn ac felly'n hawdd eu trosglwyddo i wasanaethau i oedolion. Dylai'r deilliannau lles yr unigolion yma gael eu hadolygu a'u haddasu'n rheolaidd ar sail newidiadau i amgylchiadau'r unigolyn.

### **Dylai gwaith cynllunio'r broses bontio a chymorth barhau tan fod unigolion yn 25 oed**

Yn aml, mae cyfnod pontio ar ôl cyrraedd 16 oed yn cael ei weld yn achlysur gadael ysgol yn hytrach na phroses barhaus sy'n para am nifer o flynyddoedd. Mae hyn yn golygu bod cyfnodau pontio dilynol, er enghraifft, gadael addysg bellach, yn aml ddim yn cael eu cefnogi. Mae'r cyfnodau pontio hwyrach yma yn

arbennig o heriol i lawer o bobl ifainc a'u rhieni a'u cynhalwyr, ac yn aml maen nhw'n ansicr o ran ble y mae modd iddyn nhw gael cymorth.

Mae hawl gyda phlant a phobl ifanc dderbyn addysg, ac mae addysg bellach yn chwarae rhan bwysig wrth helpu â datblygiad personol a gyrfaol llawer o bobl ifainc. Fodd bynnag, mae gwaith ymchwil yn dangos bod newidiadau i gyllid yn effeithio ar bobl ag anghenion cymorth ychwanegol mewn ysgolion a cholegau. Mae gyda Llywodraeth Cymru ganllawiau ar ddarpariaeth addysg bellach ar gyfer pobl ifainc ag anawsterau dysgu. Mae modd eu darllen drwy'r ddolen ganlynol: [gov.wales/educationandskills](http://gov.wales/educationandskills). Maen nhw'n canolbwyntio ar y canlynol:

- Yr hyn y bydd Llywodraeth Cymru yn ei hystyried wrth benderfynu p'un a yw am ariannu lleoliadau arbenigol, am ba hyd i'w hariannu, a ph'un a yw am ariannu newidiadau
- Rhaglenni astudio sydd eisoes ar waith, a ph'un a yw am ariannu rhaglenni astudio ychwanegol
- Yr hyn y bydd Llywodraeth Cymru yn ei hystyried wrth fonitro unrhyw leoliadau sydd wedi cael eu cytuno
- Trosolwg o'r amserlenni y mae Llywodraeth Cymru a chyrff eraill sydd â diddordeb yn gweithredu ynddyn nhw

Efallai y bydd rhai pobl ifainc ag anghenion cymorth ychwanegol, yn enwedig y rhai ag anabledau dysgu, yn cael eu cyfeirio at gyrsiau coleg ôl-ysgol er mwyn cynnal yr un lefel o ddarpariaeth o ran y gwasanaethau cyffredinol â'r hyn yr oedden nhw'n ei chael pan oedden nhw'n blant. Mae'n bosibl y bydd hyn o ganlyniad i ostyngiad yn nifer y gwasanaethau ar draws gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a gwaith cymdeithasol, yn ogystal â diffyg dewisiadau eraill sy'n addas.

Pan fydd pobl ifainc yn dewis mynychu addysg bellach, mae'n bwysig eu bod yn cael y gefnogaeth sydd eu hangen arnyn nhw tra eu bod nhw yn y coleg, a'u bod yn pontio'n llwyddiannus ar ôl gorffen eu cwrs, neu os ydyn nhw'n dewis gadael.

O ran y broses bontio, mae hyn yn bwysicach na gadael yr ysgol i lawer o bobl ifainc a'u teuluoedd. Dylai holl Egwyddorion Pontio Llwyddiannus barhau i fod

yn gymwys a dylai llwybrau pontio gynnwys darpariaeth i helpu â chyfnodau pontio ar ôl addysg bellach, er efallai y bydd y ddeddfwriaeth sylfaenol yn wahanol. Byddai modd darparu cefnogaeth barhaus sy'n amrywio o gymorth lefel isel i gymorth dwys, a hynny drwy asesiad parhaus gan y gweithiwr dynodedig.

## **Egwyddor Pedwar:**

### **Dylai pob person ifanc gael y cymorth angenrheidiol**

Mae hyn yn golygu:

- Dylai meini prawf cymhwysedd gael eu rhoi ar waith yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)
  - Dylai penderfyniad gael ei wneud yn gynnar i sicrhau bod pobl ifainc a'u teuluoedd yn derbyn gwybodaeth yn ystod camau cyntaf y gefnogaeth maen nhw'n ei derbyn gan Wasanaethau Cymdeithasol i Oedolion
- Dylai cymorth fod ar gael i'r rhai sydd ddim yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd
  - Dylai pobl ifanc a'u teuluoedd gael gwybodaeth a chynghor ar fathau eraill o gymorth sydd ar gael drwy'r trydydd sector neu wasanaethau gofal sylfaenol, a hynny mor gynnar â phosib
- Dealltwriaeth gwell o'r nifer o bobl ifainc sydd angen cymorth a lefel yr anghenion sydd heb eu diwallu Dylid cynllunio a gwneud penderfyniadau ar gyfer gwasanaethau ar y cyd â phobl ifainc a'u cynhalwyr
  - Bydd deall anghenion pobl ifainc yn sicrhau bod modd i asiantaethau weithio ar y cyd i gynllunio meysydd datblygu gwasanaethau yn effeithiol

Yn ddiweddar, cafodd adolygiad ei gomisiynu gan Gomisiynydd Plant Cymru o brofiadau pobl ifainc o'r broses bontio i fod yn oedolion a'i chysylltiadau â rhaglen Gwella Bywydau Llywodraeth Cymru. Mae modd darllen yr adroddiad llawn yma: <https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2018/07/Peidiwch-a%cc%82-dal-yn-o%cc%82l.pdf>.

Dylai'r adroddiad yma gael ei ddarllen ar y cyd â'r egwyddorion pontio.

Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar brofiadau pontio unigolion ac yn gwneud argymhellion ar gyfer arfer yn y dyfodol a ddylai lywio polisïau a gweithdrefnau pontio asiantaethau. Mae Negeseuon Allweddol wedi'u nodi yn yr adroddiad; fodd bynnag, mae'r canlynol yn berthnasol i asiantaethau ei ystyried:

**'Prif her pontio o hyd yw gwahanol strwythurau gwasanaeth rhwng y sector plant ac oedolion, agweddau gwahanol at ofal, meini prawf cymhwysedd gwahanol a sectorau darniog yn y ddarpariaeth oedolion. Ar yr union adeg pan fydd pobl ifainc yn wynebu newidiadau biolegol, yn aeddfedu ac yn dod yn fwy penderfynol, mae gwasanaethau darparwyr trydyddol oedolion, megis ymddiriedolaethau iechyd meddwl, y GIG a'r gwasanaethau cymdeithasol lleol yn gweithredu'n wahanol i'r rhai yn y sector plant. Mae hynny'n aml yn arwain at oedi parhaol yn y pontio o'r sector plant i'r sector oedolion neu fod y gwasanaeth yn dod i ben.'**

"Peidiwch â Dal Yn ôl": Pontio i oedolaeth yn achos pobl ifanc sydd ag anableddau dysgu Gorffennaf 2018, Llywodraeth Cymru

### **Dylai meini prawf cymhwysedd gael eu rhoi ar waith yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)**

Mae'r Meini Prawf Cymhwysedd Cenedlaethol, fel sy'n cael eu nodi yn Rhan 4, Cod Ymarfer (Diwallu Anghenion), Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn amlinellu sut mae ymarferwyr yn rhoi'r broses ar waith er mwyn pennu cymhwysedd. Dylid dilyn y meini prawf yma ar ddechrau'r broses bontio. Os dydy pobl ifainc ddim yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer cymorth gan yr awdurdod lleol yn oedolion, dylid trafod hyn gyda nhw a'u

teuluoedd, gan amlinellu'r rhesymau am y penderfyniad, a darparu gwybodaeth a chyngor ynghylch ffyrdd eraill o dderbyn cymorth.

Mewn achos o anghydfod ynghylch cymhwysedd sy'n cael ei godi gan bobl ifainc, eu teuluoedd neu eu gweithwyr proffesiynol, dylai hyn gael ei gyfeirio at reolwyr y garfan sy'n gyfrifol am y broses asesu er mwyn iddyn nhw adolygu'r achos a chytuno ar benderfyniad. Os does dim modd datrys y broblem, yna dylai gael ei gyfeirio i'r grŵp strategol trosfwaol a fydd yn adolygu'r penderfyniad.

### **Dylai cymorth fod ar gael i'r rhai sydd ddim yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd**

Mae'n hanfodol bod pobl ifainc a'u teuluoedd yn derbyn gwybodaeth a chyngor ar ffyrdd eraill o dderbyn cymorth yn oedolion, felly dylai'r grŵp strategol trosfwaol sicrhau bod gydag asiantaethau partner wybodaeth gyfredol am eu gwasanaethau, e.e. iechyd mewn perthynas â gwasanaethau iechyd sylfaenol, ac addysg mewn perthynas â chymorth gydag addysg bellach. Trwy weithio ar y cyd â phobl ifainc a'u teuluoedd, bydd hyn hefyd yn sicrhau bod asiantaethau'n cael gwybod am y cyfeiriad strategol ar gyfer datblygu a chefnogi gwasanaethau.

### **Egwyddor Pump:**

### **Rhaid bod modd i bobl ifainc, rhieni a chynhalwyr gael gafael ar yr wybodaeth sydd ei hangen arnyn nhw**

Mae hyn yn golygu:

- Dylai gwasanaethau Gwybodaeth a Chyngor nodi'n glir yr hyn y mae gan bobl ifanc hawl i'w gael yn ystod y broses bontio
  - Dylai fod modd i wasanaethau Gwybodaeth a Chyngor ddarparu'r wybodaeth yma am y broses bontio, a fydd yn cynnwys y canlynol:

- Dangos y cymorth sydd ar gael
- Darparu ar gyfer gwahanol anghenion cyfathrebu
- Defnyddio iaith gyffredin y mae pawb yn gytûn arni

### **Dylai gwybodaeth nodi'n glir yr hyn y mae gan bobl ifanc hawl i'w gael yn ystod y broses bontio**

Dylai fod modd i bobl ifainc, rhieni a chynhalwyr gael gafael ar wybodaeth sy'n nodi pa gefnogaeth y mae gyda nhw hawl iddi a'r hyn i'w ddisgwyl yn ystod y broses bontio. Mae'r hawl i gael gwybodaeth yn rhan o sawl gwahanol faes deddfwriaethol, a dylai pobl ifainc a'u teuluoedd gael ystod o wybodaeth i'w cefnogi drwy'r broses bontio.

Dylai'r grŵp strategol trosfwaol ddatblygu gwybodaeth hygyrch mewn ystod o ffyrdd a fformatau, a dylai'r wybodaeth gynnwys y dewisiadau sydd ar gael i bobl ifainc, rhieni a chynhalwyr sydd o bosibl yn anfodlon â'r gwaith cynllunio ar gyfer y broses bontio neu'r deilliannau. Bydd hyn yn cynnwys y broses uwchgyfeirio i broses gwyno asiantaethau os yw materion yn cael eu codi ynghylch y broses asesu. Dylai pobl ifainc gael cymorth i gael gafael ar wasanaethau eirioli er mwyn eu helpu drwy'r broses yma.

Mae gyda phobl ifainc a'u teuluoedd hawl i gwyno, ac mae modd gwneud hyn mewn sawl ffordd mewn perthynas â sefydliadau addysg arbenigol. Bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio gweithredu yn unol â'r polisi "Sicrhau darpariaeth i bobl ifanc ag anawsterau dysgu mewn sefydliadau addysg bellach arbenigol".

Pan fydd person ifanc a/neu ei riant/cynhaliwr o'r farn bod Llywodraeth Cymru ddim wedi gwneud penderfyniad rhesymol yn unol â'r polisi yma a/neu'r gyfraith, mae modd iddo apelio i Lywodraeth Cymru i adolygu'r penderfyniad.

Mae modd cyflwyno apêl ar benderfyniad gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â:

- cais am gyllid
- cais am newid(iadau) o fewn rhaglen astudio gytûn

- cais i ariannu estyniad i raglen astudio gytûn
- cais i gynnal neu ddiweddarau asesiad adran 140

Wrth apelio, rhaid i'r person ifanc a/neu riant/gynhaliwr nodi'r penderfyniad sy'n cael ei apelio a'r rhesymau dros yr apêl, h.y. pam mae'r penderfyniad yn anghywir. Dylai'r apêl gael ei chyflwyno yn ysgrifenedig ynghyd ag unrhyw dystiolaeth sy'n ei chefnogi. Mae'n arbennig o bwysig i'r apêl fod yn ysgrifenedig achos mae'n bosibl y bydd y rhesymau a'r dystiolaeth yn gymhleth a manwl. Mae cyngor a chymorth ar gael gan Gyrfa Cymru os bydd y person ifanc a/neu riant/gynhaliwr yn dymuno cyflwyno apêl.

### **Dylai gwybodaeth ddangos pa gymorth sydd ar gael**

Mae rhai ardaloedd awdurdodau lleol wedi defnyddio'r broses fapio asedau i gynyddu ymwybyddiaeth pobl ifanc o'r opsiynau sydd ar gael. Dylai'r gwaith yma gael ei ddatblygu ar y cyd ag asiantaethau cefnogi, llywodraeth leol a chenedlaethol a gwasanaethau statudol eraill i sicrhau bod yr holl opsiynau wedi'u cynnwys.

Ffordd arall o ddarparu gwybodaeth yw creu taflenni sy'n amlinellu'r cymorth sydd ar gael yn y gymuned leol a'r ystod o wasanaethau sydd ar gael wrth adael yr ysgol neu'r coleg.

Gan ei fod yn bwysig mabwysiadu dulliau y mae pawb yn eu defnyddio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i gefnogi'r cyfnod pontio, dylai darparwyr gwasanaethau eirioli a gwybodaeth ystyried ehangu eu cwmpas i ymdrin â'r holl faterion y byddai modd iddyn nhw effeithio ar bobl yn ystod y cyfnod pontio, yn hytrach na mynd i'r afael â meysydd penodol o angen.

### **O ran gwybodaeth, dylid darparu ar gyfer gwahanol anghenion cyfathrebu**

Mae'n ofynnol darparu gwybodaeth mewn ffyrdd sy'n cynnwys gwahanol anghenion cyfathrebu pobl ifanc, eu rhieni a'u cynhalwyr. Mae modd i hyn gynnwys fformatau sain a fideo amgen Iaith Arwyddion Prydain, technolegau cynorthwyol, meddalwedd Boardmaker, testun hawdd ei ddeall a thechnoleg

Talking Mats. Mae'r dull yma'n hanfodol wrth weithio gyda phobl fyddar a/neu ddall neu eraill sydd angen cymorth wrth gyfathrebu.

### **Dylai gwybodaeth ddefnyddio iaith gyffredin y mae pawb yn gytûn arni**

Un o'r heriau mwyaf sylfaenol i sicrhau dealltwriaeth gyffredin o'r cyfnod pontio a dulliau y mae pawb yn eu defnyddio yw'r diffyg iaith gyffredin y mae pawb yn gytûn arni. Mae'n arfer da sicrhau bod yr holl wybodaeth, lle bo'n bosibl, ddim yn cynnwys jargon.

Dylai'r termau sy'n cael eu rhannu ar draws pob sector proffesiynol gael eu diffinio'n glir a'u cytuno arnynt. Er enghraifft, mae modd i 'pontio', 'gweithiwr allweddol', 'cydlynedd pontio', 'anabledd dysgu', 'anabledd', 'anhawster dysgu', 'deilliant', 'cyrchfan gadarnhaol' ac 'wedi'i ganolbwyntio ar yr unigolyn' fod â gwahanol ystyron, yn ddibynnol ar gefndir proffesiynol y person sy'n eu defnyddio. Mae hyn yn arwain at ddryswch ymhlith pobl ifainc, rhieni, cynhalwyr a gweithwyr proffesiynol.

## **Egwyddor 6**

### **Mae angen cymorth ar deuluoedd a chynhalwyr**

Mae hyn yn golygu:

- Mae angen cefnogi lles y teulu
  - Dylid cyfathrebu gyda'r teulu'n barhaus o'r cychwyn cyntaf ac adolygu'r cyfathrebu yma wrth i bobl ifainc symud ymlaen i fod yn oedolion
  - Mae angen cefnogi teuluoedd i ddeall y gwahanol ofynion deddfwriaethol pan fydd pobl ifainc yn cyrraedd 18 oed



- Dylai gwasanaethau eirioli fod ar gael ar y dechrau a thrwy gydol y cyfnod pontio
  - Dylid cynnig y gwasanaeth eirioli ar ddechrau'r cyfnod pontio

### **Mae angen cefnogi lles y teulu**

Mae perthynas pobl ifainc a'u teuluoedd yn gymhleth weithiau, yn enwedig pan fydd raid i rieni neu gynhalwyr ddarparu cymorth personol parhaus, a lle mae lwfansau neu fudd-daliadau sy'n gysylltiedig ag anabledd yn cyfrannu'n sylweddol i incwm yr aelwyd. Mae anghenion a rolau aelodau'r teulu a chynhalwyr hefyd yn debygol o newid wrth i'r person ifanc y maen nhw'n gofalu amdano brifio. Mae rhieni a chynhalwyr fel arfer wrth wraidd gofal parhaus pobl ifainc sydd ag anghenion cymorth ychwanegol, a nhw yw'r bobl sy'n fwyaf tebygol o roi arweiniad a chymorth yn ystod y cyfnod pontio.

Mae heriau sylweddol i'r rôl yma. Mae llawer o rieni a chynhalwyr yn teimlo bod rhaid iddyn nhw frwydro i gael cymorth ac felly yn blino wrth fynd i'r afael â'r heriau newydd sy'n rhan o'r cyfnod pontio. Yn rhy aml, mae rhieni a chynhalwyr yn disgrifio eu profiad o gefnogi plentyn drwy'r cyfnod pontio fel 'disgyn oddi ar glogwyn' neu 'fod mewn twll du'<sup>1</sup>.

Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, a ddaeth i rym yn 2015, yn ymestyn ac yn gwella hawliau cynhalwyr. Ei nod yw darparu cefnogaeth well a mwy cyson i gynhalwyr fel bod modd iddyn nhw barhau i ofalu, os ydyn nhw'n dymuno, yn unigolion iach a byw eu bywyd ochr yn ochr â'r gwaith gofalu. Yn yr un modd, dylai cynhalwyr ifainc gael plentyndod fel eu cyfoedion sydd ddim yn gynhalwyr. Bydd asesiadau cynhalwyr yn cael eu disodli gan Gynlluniau Gofal a Chymorth yn benodol ar gyfer cynhalwyr a bydd y rhain yn nodi deilliannau personol ac unrhyw anghenion cymorth.

### **Arfer gorau**

Mae rhwydweithiau cefnogaeth gan gyfoedion yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr. Fodd bynnag, mae'n anodd cynnal rhwydweithiau sy'n cael eu creu tra bo plant yn yr ysgol ar ôl iddyn nhw adael. Dylid ystyried gallu rhieni a chynhalwyr i

sefydlu'r gefnogaeth yma a'i chynnal wrth ddatblygu pecynnau cymorth i bobl ifainc.

Mae'r strategaethau isod wedi'u paratoi i helpu i leihau'r straen ar deuluoedd a chynhalwyr yn ystod y cyfnod pontio:

- Annog disgwyliadau cadarnhaol a gweithio gydag amheuon ynghylch bywyd cymunedol a chymdeithasol ar ôl cyrraedd 16 oed
- Cyfathrebu clir ac eglurder ar y broses bontio bob amser
- Siarad am y broses bontio yn gadarnhaol ac mewn ffordd greadigol, a phwysleisio ei fod yn amser i ddathlu bod yn oedolyn ifanc
- Paratoi rhieni a chynhalwyr ar gyfer y broses gynllunio trwy ddarparu sesiynau gwybodaeth cynnar o 14 oed. Os yw'r wybodaeth yn amserol a chywir, bydd gyda rhieni a chynhalwyr well gyfle i gymryd rhan yn y broses bontio
- Cefnogi rhieni a chynhalwyr i ddeall a chydabod y bydd y rheiny y maen nhw'n gofalu amdany'n nhw yn gwneud eu dewisiadau eu hunain wrth ddod yn oedolion, a chefnogi pawb sy'n rhan o'r broses er mwyn gwneud dewisiadau gwybodus
- Cynyddu argaeledd rhwydweithiau cefnogaeth gan gyfoedion
- Cynnig hyfforddiant mewn technegau rheoli straen, e.e. ymarferion ymlacio a myfyrio
- Defnyddio gwasanaethau seibiant byr priodol
- Rhoi cymorth i gynhalwyr fel bod modd iddyn nhw fod yn fwy cydnerth, hunan-ffeithiol a bod gyda nhw hunan-barch
- Sicrhau bod modd i rieni barhau i gael gafael ar un pwynt cyswllt
- Sicrhau bod rhieni yn derbyn gwybodaeth ac yn cael eu cefnogi i gwblhau asesiadau cynhalwyr ac ystyried prosesau cyfreithiol perthnasol fel Gorchmynion Gwarcheidiaeth

### **Dylai gwasanaethau eirioli fod ar gael ar ddechrau'r broses bontio a thrwy gydol y cyfnod**

Mae'n arfer gorau i wasanaeth eirioli fod ar gael i bob person ifanc yn ystod y cyfnod pontio a'u rhieni a'u cynhalwyr, a dylai'r gwasanaeth gael ei gynnig yn weithredol ar ddechrau'r cyfnod pontio, yn enwedig os oes gyda'r unigolion

bryderon ynghylch lleisio eu barn. Mae Rhan 10, Cod Ymarfer (Eiriolaeth), Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn nodi'r gofynion ar awdurdodau lleol i:

a) sicrhau bod modd i unigolion gael gafael ar gymorth a gwasanaethau eirioli fel bod modd iddyn nhw gymryd rhan pan fo awdurdodau lleol yn cyflawni dyletswyddau statudol mewn perthynas â nhw

b) trefnu eiriolwr proffesiynol annibynnol i hwyluso unigolion wrth iddyn nhw gymryd rhan yn y broses dan rai amgylchiadau

Ddylai gwasanaethau eirioli ddim bod ar gael yn unig pan mae'n rhaid gwneud penderfyniadau anodd. Mae'r Cod yn nodi amgylchiadau penodol a chyfnodau o newid neu bontio a fydd yn bwysig i'r unigolyn a phryd y byddai'n bosibl eu bod nhw angen defnyddio'r gwasanaeth eirioli yn fwy aml.

Dydy'r rhestr yma ddim yn gynhwysfawr, ond mae'r amgylchiadau yma'n cynnwys:

- wrth wneud penderfyniadau a fydd yn cael effaith sylweddol ar fywyd y person ifanc o ddydd i ddydd, gan gynnwys:

a) Asesu, cynllunio gofal a chymorth, adolygiadau

b) Diogelu

c) Cael gafael ar wybodaeth, cyngor a chymorth

ch) Ble maen nhw'n mynd i fyw

d) Asesu trefniadau gofal a chymorth anffurfiol, neu newidiadau iddyn nhw

dd) Symud o dderbyn gofal a chymorth trwy gynllun gofal a chymorth, neu drwy gynllun cymorth os ydyn nhw'n gynhaliwr, i dderbyn gofal a chymorth drwy gymorth lles ataliol yn y gymuned

### **Arfer gorau**

Dylai'r gwasanaeth eirioli gael ei gynnig ar ddechrau'r cyfnod pontio, yn 14 oed, a dylai fod ar gael tan fod unigolion yn 25 oed o leiaf. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i'r rheiny sy'n derbyn gofal, sydd â phrofiad o dderbyn gofal, a'r rheiny sy'n cael eu hystyried ar gyfer Gorchymyn Gwarcheidiaeth.

### **Egwyddor 7:**

## **Dylid canolbwyntio'n barhaus ar y broses bontio ar draws Cwm Taf**

Mae hyn yn golygu:

- Bod gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio ar draws Cwm Taf yn gweithio gyda'i gilydd i hyrwyddo Egwyddorion Pontio Llwyddiannus a gwella arfer ar draws yr ardal
- Canolbwyntio'n barhaus ar gyfnodau pontio wrth lunio polisi a deddfwriaeth
- Dysgu arfer da o waith wedi'i ariannu gan brosiectau a'i roi ar waith yn rhan o strategaethau cynaliadwy yn y tymor hirach

Dylai'r holl weithwyr proffesiynol sy'n gweithio ar draws Cwm Taf sicrhau eu bod yn deall egwyddorion pontio yn llawn a sut mae'r rhain yn cael eu rhoi ar waith yn rhan o bolisiau a gweithdrefnau. Dylid datblygu rhaglen hyfforddi i gefnogi hyn a'i chyflwyno ar draws Cwm Taf sy'n cynnwys partneriaid aml-asiantaeth ac asiantaeth arweiniol wedi'i phenodi er mwyn helpu i ddatblygu ac adolygu'r egwyddorion yn barhaus. Dylai achlysuron ymgysylltu â phobl ifainc gael eu cynnal i rannu'r egwyddorion a'u cynnwys nhw yn y gwaith parhaus o ddatblygu'r agenda bontio.

## **Cyfeiriadau a Darllen Pellach**

Deddfwriaeth:

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol 2017

Canllawiau pontio Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) 2016

Darllen Pellach:

Egwyddorion a chanllawiau trosglwyddo o wasanaethau ieuenctid i wasanaethau oedolion (Cymru), Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru/Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS) Cymru Rheolwyr TTI Cymru Mehefin 2015

"Peidiwch â Dal Yn ôl": Pontio i oedolaeth yn achos pobl ifanc sydd ag anableddau dysgu Gorffennaf 2018, Llywodraeth Cymru

Egwyddorion Pontio Llwyddiannus, Fforwm Bontio'r Alban 2017